MAE’R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

Heddlu Police
DYFED-POWYS
Diogelu ein cymunedau, gyda’n gilydd Safeguarding our communities, together

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU A PHRIF GWNSTABL HEDDLU DYFED-POWYS

# Adroddiad Blynyddol y Cyd-bwyllgor Archwilio 2025–2026



MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

# Rhagair y Cadeirydd

Cyflwynaf i chi fel cadeirydd, fy mhedwerydd adroddiad blynyddol ar waith Cyd-bwyllgor Archwilio Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys. Diben y cyd-bwyllgor archwilio yw darparu sicrwydd a chyngor annibynnol ar brosesau llywodraethu. Mae'r pwyllgor yn ystyried y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol, a lle bo'n briodol yn herio'r prosesau sydd ar waith er mwyn sicrhau ei hun eu bod yn addas at y diben.

Ar gyfer blwyddyn 2025–2026 mae'r pwyllgor wedi bod yn gyflawn ac mae ganddo gyfoeth o brofiad a gwybodaeth. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'm cyd-aelodau, Farhan Shakoor, David Macgregor, Julie James a Caroline Wheeler am eu cyfraniadau, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

Cyfarfu'r pwyllgor yn ffurfiol bum gwaith yn ystod y flwyddyn ac rwy'n credu bod hyn wedi ein galluogi i ymgymryd â'r gwaith gofynnol mewn modd amserol, gan ganiatáu inni roi gwybod i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl fod prosesau rheoli digonol ar waith.

Roedd yn siomedig bod y datganiad o gyfrifon ariannol ar gyfer 2024–2025 yn hwyr yn cael ei gwblhau cyn cael ei gymeradwyo gan Archwilio Cymru. Bu'r pwyllgor yn craffu ar y rhesymau dros yr oedi, ac y mae wedi cydweithio â'r heddlu ac archwilwyr allanol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a godwyd er mwyn sicrhau proses esmwyth ar gyfer 2025–2026.

Roedd yn braf nodi bod y cynllunio strategol a'r cylch sicrhau yn parhau i gael eu hymgorffori ar draws yr heddlu, ac yn cynorthwyo'r gwaith o baratoi'r cynllun ariannol tymor canolig a gosod y gyllideb ar gyfer 2026-2027. Bu cynnydd sylweddol hefyd o ran y camau gweithredu a ddeilliodd o arolygiad diweddaraf Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i swyddogion y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ynghyd ag archwilwyr mewnol TIAA ac Archwilio Cymru am y cymorth y maent wedi ei roi i'r pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf.

Kate Curran,
Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio

# Y Cyd-bwyllgor Archwilio

Diben y Cyd-bwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) a’r Prif Gwnstabl o ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd rheoli mewnol ac adrodd ariannol, a thrwy hynny helpu i sicrhau bod trefniadau effeithlon ac effeithiol ar waith.

Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Archwilio yn unol â Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, ac yn unol â chanllawiau’r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

Mae gan aelodau’r Cyd-bwyllgor Archwilio ddealltwriaeth o’r materion ariannol, risg a rheolaeth, a llywodraethiant corfforaethol sy’n wynebu’r CHTh a’r Prif Gwnstabl. Mae’r gallu ganddynt hefyd i herio, cwestiynu, archwilio a cheisio sicrwydd gan y CHTh a’r Prif Gwnstabl pan fo angen.

Roedd aelodaeth y Cyd-bwyllgor Archwilio yn ystod 2025–20206 fel a ganlyn:

| Aelod | Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd i’w mynychu | Nifer y cyfarfodydd yr aed iddynt | % y cyfarfodydd yr aed iddynt |
|---|---|---|---|
| Kate Curran (Cadeirydd) | 6 | 4 | 80% |
| Farhan Shakoor | 6 | 5 | 90% |
| David MacGregor | 6 | 6 | 100% |
| Julie James | 6 | 6 | 100% |
| Caroline Wheeler | 6 | 6 | 100% |

Mae’r pwyllgor yn parhau i fod yn gyflawn, sy’n darparu gwydnwch i alluogi adolygu a herio priodol ym mhob cyfarfod. Mae pob aelod o’r Cyd-bwyllgor Archwilio wedi ei fetio ac wedi llenwi ffurflen i ddatgan buddiannau.

Mae’r CHTh a’r Prif Gwnstabl, Prif Weithredwr a Phrif Swyddog Cyllid y CHTh, a Chyfarwyddwr Cyllid y Prif Gwnstabl hefyd yn dod i gyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Archwilio. Bydd swyddogion eraill yn bresennol i ddarparu gwybodaeth am archwiliadau, rhaglenni gwaith, neu unrhyw faterion eraill yn ôl yr angen.

Mae aelodau’r pwyllgor hefyd yn dod i gyfarfodydd llywodraethu mewnol yr heddlu i ddarparu haen ychwanegol o sicrwydd. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys:

- Y Grŵp Llywodraethiant Archwilio
- Y Bwrdd Llywodraethiant Corfforaethol
- Y Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg
- Y Grŵp Ystadau Strategol
- Y Bwrdd Cynllunio Gweithlu Strategol

- Y Bwrdd Cyllid Strategol a Chyllid Tymor Canolig
- Y Bwrdd Strategol TGCh
- Y Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth
- Y Bwrdd Newid a Thrawsnewid
- Y Bwrdd Fflyd Strategol

# Cyfarfodydd


Mae’r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn i gyd wedi eu cynnal yn rhithiol drwy gyfrwng Microsoft Teams. Yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol y Cyd-bwyllgor Archwilio, mae’r aelodau wedi bod i seminarau ychwanegol, fel y nodir yn y paragraffau canlynol.

Gwahoddwyd yr aelodau i Seminar Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ym mis Tachwedd 2025, a roddodd drosolwg i’r rhanddeiliaid o’r heriau gweithredol ac ariannol sy’n wynebu’r gwasanaeth. Rhoddodd y seminar gyfle i’r pwyllgor ac aelodau’r Panel Heddlu a Throseddu ystyried a thrafod rhai o’r materion pwysig sy’n cael eu hystyried yn ystod y broses o osod cyllideb 2026–2027. Darparodd y sesiwn wybodaeth am waith yr heddlu o gyd-destun gweithredol, a oedd yn cynnwys diweddariad ar Adolygiad yr Heddlu a’r wybodaeth ddiweddaraf gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi.

Cafodd yr aelodau fewnbwn hefyd yn y Seminar Cyllid gan Link Group, y cynghorwyr rheoli trysorlys, ar y sefyllfa economaidd bresennol ac amodau’r farchnad. Esboniodd Link hefyd yr elfennau allweddol yr oedd angen eu hystyried ar gyfer y strategaethau ariannol perthnasol.

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a’r Sefydliad mewn perthynas â materion y gweithlu, ac yn benodol yr heriau a wynebir o ran recriwtio a chadw swyddogion a gweithwyr ar draws y sefydliad.

Cynhaliwyd seminar ar y Datganiad o Gyfrifon ym mis Medi rhwng aelodau, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Cyllid ac arweinwyr cyllid o fewn yr heddlu er mwyn ystyried y lefel helaeth o fanylion yn natganiad o gyfrifon drafft 2024–2025. Ystyrir bod y seminar yn ddefnyddiol iawn o ran adolygu’r cyfrifon a’r dogfennau cysylltiedig, gyda thrafodaethau gwerthfawr iawn yn digwydd. Cafodd y pwyllgor fewnbwn hefyd ar gylch sicrhau perfformiad strategol, a’r wybodaeth ddiweddaraf gan Archwilio Cymru.



# Rhaglen waith 2025–2026

Cynhaliodd y Cyd-bwyllgor Archwilio chwech cyfarfod ffurfiol yn 2025–2026. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, cafodd y pwyllgor adroddiadau, argymhellion ac arsylwadau gan archwilwyr mewnol TIAA, Archwilio Cymru, a’r wybodaeth ddiweddaraf gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Cafodd y pwyllgor hefyd gyflwyniadau gan swyddogion Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) a’r heddlu ar bynciau allweddol er mwyn gallu llunio barn annibynnol a rhoi sicrwydd i’r CHTh a’r Prif Gwnstabl ynghylch y rheolaethau ariannol a llywodraethiant o fewn y corfforaethau undyn.

Sicrhaodd gwaith y pwyllgor ei fod yn ystyried eu cyfrifoldebau statudol ac yn ymdrin ag eitemau sydd wedi eu cynnwys o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor. Er mwyn cynorthwyo’r pwyllgor i reoli ei lwyth gwaith, datblygwyd cynllun gwaith blynyddol a adolygwyd ym mhob cyfarfod.

Nodwyd gan y pwyllgor feysydd busnes allweddol y dylid canolbwyntio arnynt yn ystod 2025–2026, yn benodol: Goruchwylio paratoi’r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2024–2025; ystyried trefniadau rheoli ariannol; parhad busnes; ystyried risgiau wrth gynnal adolygiadau mewnol penodol; monitro materion yn ymwneud â seiberddiogelwch a’r seilwaith TGCh cysylltiedig; a monitro gweithrediad polisïau adnoddau dynol yn dilyn adolygiadau. Gosododd y pwyllgor flaenoriaeth hefyd i gynnal hunanasesiad o’r broses archwilio mewnol. Ni wnaed cynnydd ar hyn yn ystod y flwyddyn gan fod contract newydd wedi ei ddyfarnu, a chytunwyd bod angen amser i roi’r trefniadau newydd ar waith.

Roedd y rhaglen waith yn cynnwys y canlynol:

**Cylch gorchwyl** – yn dilyn adolygiad o’r cylch gorchwyl ym mis Mawrth 2026, ystyriodd a chymeradwyodd y pwyllgor y cylch gorchwyl diwygiedig yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2026. Mae’r cylch gorchwyl yn seiliedig ar ganllawiau’r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, a bydd yn cael ei adolygu’n flynyddol. Mae’r cylch gorchwyl diwygiedig i’w weld yma: [Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio](#).

**Rheoli risg:** Parhaodd y Cyd-bwyllgor Archwilio i gael cofrestrau risgiau corfforaethol SCHTh a’r heddlu, a oedd bellach yn debyg o ran fformat yn dilyn adborth gan aelodau yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn ystod y flwyddyn, daeth yn amlwg nad oedd y cofrestrau risgiau adrannol a chorfforaethol yn cael eu hystyried yn rheolaidd yn ystod adolygiadau archwilio mewnol, ac argymhellodd y pwyllgor y dylai hyn ddod yn drefn arferol. Cytunwyd y byddai’r cofrestrau risgiau perthnasol yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiad yn y dyfodol.

**Rheoli Gwybodaeth:** Yn dilyn monitro rheolaidd o’r maes busnes Rheoli Gwybodaeth yn 2024–2025, roedd y pwyllgor wedi nodi gwelliant sylweddol mewn perfformiad. Gyda hynny mewn golwg, bu’r pwyllgor yn ystyried adroddiad diweddaru blynyddol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2026. Roedd y pwyllgor yn falch bod y gwelliannau mewn perthynas â rhyddid gwybodaeth a cheisiadau am fynediad at ddata gan y testun wedi parhau. Nodwyd gan y pwyllgor fod problemau mewn perthynas ag asesiadau o’r effaith ar ddiogelu data, yn enwedig ynghylch oedi wrth eu cymeradwyo, a chafodd sicrwydd y byddai hyn yn cael ei fonitro’n rheolaidd drwy gofrestrau risgiau corfforaethol yr heddlu a SCHTh. Yn ogystal, bu aelod o’r Cyd-bwyllgor Archwilio yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth drwy gydol y flwyddyn, a chafodd ddiweddariadau rheolaidd ar y sefyllfa yn y cyfarfodydd hynny.

**Llywodraethiant:** Cafodd y Cyd-bwyllgor Archwilio yr wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu’r Grŵp Llywodraethiant Corfforaethol a’r Grŵp Llywodraethiant Archwilio. Parhaodd y pwyllgor i gael gwybodaeth mewn perthynas â nifer yr argymhellion heb eu gweithredu yn dilyn adolygiadau archwilio mewnol. Dywedwyd ei bod yn bwysig, pan fyddai staff yn ystyried yr argymhellion, eu bod yn darparu amserlenni rhesymol a chyraeddadwy a ddylai arwain at lai o argymhellion sy’n gofyn am estyniadau i derfynau amser. Nodwyd gan y pwyllgor hefyd, lle y mae staff yn anghytuno ag argymhelliad, ei bod yn dderbyniol datgan hyn ar yr amod bod rhesymeg ddigonol i gwmpasu’r penderfyniad. Yn ystod y flwyddyn, bu’r pwyllgor yn ystyried y Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol, a chytunodd arno.

**Adroddiadau ariannol** – Yn dilyn y gwersi a ddysgwyd o gymeradwyo cyfrifon 2023–2024, roedd y pwyllgor wedi ei siomi o glywed y byddai oedi byr wrth gymeradwyo’r cyfrifon ar gyfer 2024–2025. Dywedwyd wrth y pwyllgor fod rhesymau dros yr oedi, gan gynnwys problemau yn ymwneud â phrydlesau. Fel rhan o’i gyfrifoldebau craidd, bu’r pwyllgor yn ystyried y cynllun ariannol tymor canolig, y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Polisi Cronfeydd Wrth Gefn, a’r Strategaeth Gyfalaf.

**Archwilio mewnol:** Cafodd y Cyd-bwyllgor Archwilio adroddiadau ar y gwaith a wnaed gan yr archwilwyr mewnol, sef TIAA. Yn ystod 2025–2026, roedd 20 o adolygiadau archwilio mewnol wedi eu cynllunio, ond 16 o adroddiadau archwilio mewnol penodol a ystyriwyd gan y pwyllgor yn ystod 2025–2026. Roedd pedwar adolygiad mewn perthynas â seiberddiogelwch a'r seilwaith TGCh. Byddai rheoli newid TGCh a rheoli absenoldeb arall gan yr Adran Adnoddau Dynol yn cael eu hystyried yn ystod rhan gyntaf 2026–2027. O'r 20 adolygiad a gynlluniwyd, roedd 13 yn adolygiadau sicrwydd mewnol mewn perthynas â Dyfed-Powys. Roedd saith adolygiad arall yn ymwneud â gwaith cydweithredol a oedd yn mynd rhagddo ymysg holl heddluoedd Cymru. Fel rhan o'u rôl, gallai'r aelodau herio'r wybodaeth a oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiadau, a cheisio sicrwydd y byddai'r gwaith adferol yn cael ei wneud pan fyddai problemau yn cael eu nodi er mwyn ysgogi gwelliannau. Mae'r pwyllgor yn parhau i ofyn bod cofrestrau risgiau yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiad er mwyn sicrhau dull cyfannol a chanlyniad effeithiol i adolygiad. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 10 adolygiad sicrwydd sylweddol, cafodd 4 sicrwydd rhesymol, a chafodd 2 sicrwydd cyfyngedig (gweler y tabl isod am y lefelau sicrwydd unigol).

| Adolygiad | Lefel sicrwydd | Adolygiad | Lefel sicrwydd |
|---|---|---|---|
| Cwynion SCHTh | Sylweddol | Y Gyflogres | Sylweddol |
| Rhaglen ailhyfforddi gyrwyr | Sylweddol | Yr Adran Ymchwilio i Droseddau – Diogelu pobl fregus | Sylweddol |
| Rheoli Adnoddau Dynol – Recriwtio a hyfforddiant | Sylweddol | Treuliau a thaliadau ychwanegol | Sylweddol |
| Goramser a lwfansau ychwanegol | Sylweddol | Rhaglen gyfalaf | Sylweddol |
| Cynllunio'r gweithlu | Sylweddol | Credydwyr | Sylweddol |

| Adolygiad | Lefel sicrwydd | Adolygiad | Lefel sicrwydd |
|---|---|---|---|
| Rheoli Adnoddau Dynol – Absenoldeb salwch | Rhesymol | Rheoli adnoddau / hyfforddiant | Rhesymol |


MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rheoli Adnoddau Dynol – Cydymffurfedd gwyliau blynyddol | Rhesymol | Cyfathrebu Corfforaethol | Rhesymol |

| **Adolygiad** | **Lefel sicrwydd** | **Adolygiad** | **Lefel sicrwydd** |
|---|---|---|---|
| Uned Rheoli Adnoddau | Cyfyngedig | Diogelwch enillion a atafaelwyd o droseddau | Cyfyngedig |
| | | | |

# Blaenoriaethau ar gyfer y pwyllgor yn 2025-2026

- Parhau i hyrwyddo gwelliant yn ansawdd datganiadau ariannol 2025–2026 a'r prosesau sy'n sail i'w paratoi er mwyn sicrhau bod yr amserlenni'n cael eu dilyn i sicrhau cymeradwyo amserol.
- Ystyried y trefniadau rheoli ariannol yn barhaus, a chynghori arnynt er mwyn datblygu'r cynllun ariannol tymor canolig ymhellach.
- Canolbwyntio ar feysydd allweddol i gefnogi blaenoriaethau'r CHTh a'r Prif Gwnstabl, gan gynnwys y canlynol:
    - Monitro gweithrediad y trefniadau o ran perfformiad strategol a'r cylch sicrhau.
    - Monitro'r cynnydd ar argymhellion archwilio mewnol hirdymor.
    - Cynnal hunanasesiad o'r broses archwilio mewnol.
    - Monitro unrhyw faterion sy'n ymwneud â seiberddiogelwch a'r seilwaith TG cysylltiedig.



MAE’R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG



# Manylion


Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu,
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF 01267 226440

opcc@dyfed-powys.police.uk

www.dyfedpowys-pcc.org.uk

@dpopcc